

Crynodeb o Adroddiad yr Ymgynghoriad ar gyfer Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Drafft ar gyfer Rhondda Cynon Taf Hydref 2018.

Cyflwyniad

Roedd drafft diwygiedig o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar 25 Mehefin 2018. Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu yn y wasg leol, ar wefan y Cyngor, yn llyfrgelloedd y Cyngor, trwy e-bost neu trwy'r post i'r rhestr o ymgynghorai (gweler atodiad un) a thrwy'r Fforwm Mynediad Lleol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau oedd 17 Medi 2018. Cafodd holiadur ei ddarparu ar dudalen we ymgynghori'r Cyngor. Yn ogystal â hyn, roedd nifer o achlysuron ymgynghori anffurfiol wedi cael eu cynnal gan Swyddogion y Cyngor ac aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn ystod gwyliau'r haf ar safleoedd neu gyda grwpiau.

Yr ymateb

Cafodd cyfanswm o 335 o holiaduron eu llenwi. Cafodd 170 o holiaduron eu llenwi ar-lein a chafodd 103 o holiaduron papur eu llenwi, cafodd 7 sylw ysgrifenedig (gan gynnwys trwy e-bost) eu cyflwyno. Roedd 54 person pellach wedi cyfrannu at drafodaethau anffurfiol mewn o leiaf 4 lleoliad. Cafodd y drafft ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu'r Cyngor ym mis Medi.

Mae adroddiad manwl (248 tudalen) ar y cyd â thaenlen data wedi cael ei chynhyrchu. Mae'r daenlen yma'n cofnodi'r holl sylwadau a'r camau gweithredu neu newidiadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad. Dyma grynodedd o'r adroddiad manwl.

Mae'r daenlen excel yn cynnwys yr holl ddata'r 273 o holiaduron a gafodd eu llenwi. Mae mwyafrif o'r rheiny a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn defnyddio manau agored (yn wythnosol neu'n ddyddiol). Roedd parciau a llwybrau wedi cael eu henwi'n fwyaf aml, yna bryniau/mynyddoedd. Roedd ystod eang o resymau dros eu defnyddio nhw wedi cael eu nodi, yn bennaf cerdded. Roedd iechyd, hamdden, teulu/cymdeithasu a cherdded cŵn ymhlith y pethau mwyaf poblogaidd. Roedd pobl yn ymweld ag ardaloedd ar hyd a lled Rhondda Cynon Taf ac roedd y mwyafrif o bobl wedi ymweld â manau agored mewn ardaloedd eraill. Roedd y mwyafrif o'r ardaloedd yma yn ne Cymru, ond roedd rhai bellach i ffwrdd.

Doedd pob person a oedd wedi ymateb ddim wedi nodi'u cod post, ond roedd y mwyafrif o'r rheiny a oedd wedi nodi'u cod post yn byw yn Rhondda Cynon Taf, gyda chynrychiolwyr o 42 allan o'r 52 ward yn y Fwrdeistref Sirol.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi dull cyffredinol y Cynllun a'r chwe amcan. Fodd bynnag, mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud o ganlyniad i'r syniadau, gan gynnwys rhai newidiadau i destun y Cynllun,

gayn gynnwys rhai newidiadau i'r themau blaenoriaethol dan bob amcan. Caiff y fethodoleg sy'n cael ei defnyddio ei disgrifio isod.

Mae'r ymatebion manwl mewn perthynas â'r Cynllun drafft wedi cael eu casglu yn rhan o gyfres o dablau sy'n trafod

- sylwadau cyffredinol, gan gynnwys sylwadau ynglŷn â'r Cynllun Cyflawni
- sylwadau mewn perthynas â phob un o'r chwech amcan
- sylwadau mewn perthynas â chwestiwn 14 'Unrhyw wybodaeth/sylw arall'

Mae gan bob tabl golofn ar gyfer

- cyfeirnod y person sydd wedi ymateb,
- ymateb yr unigolyn air am air,
- 'arsylwadau'r' swyddog (crynodeb o'r geiriau allweddol)
- 'sylwadau'r' Swyddog
- 'ymateb neu weithred' sydd wedi cael ei gynnig gan y swyddog'

Mae'n debygol bod nifer o'r unigolion sydd wedi cwblhau'r holiadur heb ddarllen pob rhan o'r Cynllun drafft. O ganlyniad i hyn, roedd rhai sylwadau a gafodd eu gwneud mewn ymateb i gwestiynau'r arolwg eisoes wedi cael eu trafod yn rhan o'r geiriad yn y Cynllun. Cafodd hyn ei nodi yng ngholofn 'sylw' a chafodd 'dim newid' ei nodi yng ngholofn 'ymateb neu weithred'.

Yn achos y sylwadau hynny a oedd yn gofyn am destun ychwanegol neu destun wedi'i ddiwygio, roedd y lleoliad arfaethedig wedi'i nodi yng ngholofn 'sylwadau' a'r newidiadau i'r testun yng ngholofn 'ymateb neu weithred'.

Cafodd ystod eang o wybodaeth a syniadau sy'n berthnasol i'r Cynllun, a'r Amcanion yn benodol, ei gynnig. Doedd dim modd cynnwys yr holl bethau yma yn fformat y Cynllun, ond maen nhw wedi cael eu casglu a'u nodi mewn 'rhestr o syniadau'. Bydd y rhestr yma'n cael ei defnyddio i hysbysu'r rhaglen waith a fydd yn cael ei nodi yn y Cynllun Cyflawni blynyddol. Mae hyn wedi cael ei nodi yng ngholofn 'ymateb neu weithred'.

Mae nifer o'r rheiny sydd wedi ymateb hefyd wedi gwirfoddoli i gynorthwyo ag amryw o elfennau'r Cynllun. Mae argaeledd manylion cyswllt wedi cael ei nodi yng ngholofn 'sylwadau' a'r 'gwirfoddolwr cyswllt' wedi cael ei nodi yng ngholofn 'ymateb neu weithred' ble y bo'n addas.

Roedd rhai unigolion a oedd wedi ymateb wedi codi ymholiadau penodol, sydd ddim yn ymwneud â'r Cynllun. Bydd rhai o'r ymholiadau yma'n cael eu trosglwyddo i adrannau eraill y Cyngor er gwybodaeth neu er mwyn gweithredu a byddwn ni'n trafod ymholiadau eraill gyda'r ymatebwr (lle cafodd manylion cyswllt eu darparu). Yn y ddau achos, cafodd hyn ei nodi yng ngholofn 'ymateb neu weithred'.

Casgliadau

Crynodeb o'r ymatebion mewn perthynas ag **Amcan Un**: *'Mae sawl person wedi dweud bod cefn gwlad Rhondda Cynon Taf yn werthfawr a dylid ei ddefnyddio i hyrwyddo twristiaeth a'r broses adfywio yn ogystal ag iechyd a hamdden. Beth yw eich barn?*

Mae yna gefnogaeth aruthrol o blaid cefn gwlad fel ased a'i rôl o ran hyrwyddo twristiaeth, y broses adfywio, iechyd a hamdden. Roedd nifer o bryderon wedi cael eu codi mewn perthynas â materion sy'n difrio neu rwystro defnydd megis diogelwch, sbwriel, baw cŵn, gwaith cynnal a chadw, llifogydd ac ati. Cafwyd awgrymiadau mewn perthynas â hyrwyddo, gwybodaeth, mentrau twristiaeth arloseol, pwysigrwydd bywyd gwyllt a threftadaeth, agosrwydd i gymunedau a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus.

Crynodeb o'r ymatebion mewn perthynas ag **Amcan Dau**: *'Beth yw'ch barn am gerdded a beicio fel opsiynau trafndiaeth? Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i hyrwyddo teithio llesol nid yn unig o ran hwyl a hamdden ond ar gyfer teithiau bob dydd. Mae gyda ni rwydwaith da o lwybrau cymunedol fel Llwybr Taith Taf a llwybr osgoi Pentre'r Eglwys. Ydych chi'n defnyddio'r llwybrau yma? Hoffech chi gerdded neu feicio'n amlach yn lle gyrru?'*

Caiff yr amcan yma ei gefnogi gan rai, ond yn achos nifer o bobl dydy teithio llesol ddim yn opsiwn ymarferol o ran teithio i'r gwaith, er enghraifft. Mae hyn oherwydd pellter, tirwedd, cyfyngiadau amser a diffyg llwybrau addas. Mae iechyd, oedran, ymrwymadau teuluol a gofynion gwaith hefyd yn cael ei nodi. Mae gan nifer o bobl bryderon ynghylch diogelwch, safon a chysondeb llwybrau, gwaith cynnal a chadw, arwyddion, goleuadau, hyrwyddo a gwrthdaro rhwng defnyddwyr (cerbydau, beicwyr a cherddwyr). Cafodd nifer o awgrymiadau eu gwneud ar gyfer gwella'r llwybr, llogi beiciau, cyfleusterau parcio a newid yn y gweithle.

Crynodeb o'r ymatebion mewn perthynas ag **Amcan Tri**: *'Mae gyda ni gyfrifoldebau cyfreithiol i ofalu am lwybrau Hawliau Tramwy Cyhoeddus (llwybrau troed, llwybrau ceffyl ac ati) ac mae hynny'n cynnwys cymryd camau gorfodi pan fo llwybrau wedi'u rhwystro. Mae modd i ni hefyd ddefnyddio polisïau a gweithio gydag eraill i ddiogelu'r holl gyfleoedd mynediad gwahanol sy'n bodoli yn RhCT. Beth yw eich barn?'*

Tra bod y mwyafrif o bobl yn meddwl dylen ni ddiogelu'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybrau mynediad/ardaloedd eraill, mae yna amrywiaeth barn ynghylch cyflawniad a blaenoriaethau cyfredol. Mae'r angen am ragor o archwiliadau, prosesau gwell ar gyfer rhoi gwybod, prosesau cynnal a chadw gwell a blaenoriaeth uwch ar gyfer camau gorfodi wedi'u nodi. Mae yna hefyd awgrymiadau ar gyfer cyfathrebu â'r heddlu, awdurdodau lleol cyfagos, cynghorau cymuned a chynghorau tref, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Mae materion eraill wedi cael eu codi, gan gynnwys llwybrau a phalmentydd sydd wedi cael eu rhwystro, ymddygiad gwrthgymdeithasol (gan gynnwys gollwng sbwriel, tipio'n anghyfreithlon a thresbasu ar feic modur) a rheoli gordyfiant.

Crynodeb o ymatebion mewn perthynas ag **Amcan Pedwar**: *'Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr, beicwyr, pobl sy'n marchogaeth, cerbydau oddi ar y ffordd a defnyddwyr sydd ag anableddau o ran symud neu synhwyro. Dyma'r her fwyaf oherwydd does dim llawer o arian cyhoeddus ar gael ar gyfer prosiectau newydd. Mae'n debygol mai cyrff ariannu a fydd yn pennu'r blaenoriaethau, a bydd angen i ni fod yn greadigol i wneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd ariannu. Yn eich barn chi, beth ddylai'r blaenoriaethau fod?'*

Y prif flaenoriaethau a gafodd eu nodi gan y rheiny a oedd wedi ymateb i'r arolwg oedd 'defnyddwyr sydd ag anableddau o ran symud neu synhwyro' a 'cherddwyr a beicwyr'. Roedd darpariaeth ar gyfer cerbydau oddi ar y ffordd wedi achosi amrywiaeth barn; gyda rhai pobl yn rhoi blaenoriaeth isel, neu dim blaenoriaeth i'r mater yma a chafwyd awgrymiadau ar gyfer darpariaeth benodol. Roedd rhai a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad wedi awgrymu y dylai darpariaeth hyrwyddo a gwybodaeth gael ei blaenoriaethu. Roedd nifer sylweddol o'r rheiny a oedd wedi ymateb i'r arolwg yn ystyried dylai gwaith diogelu a chynnal a chadw'r rhwydwaith cyfredol ac ati gael ei flaenoriaethu (gweler Amcan 3) yn hytrach na gwella darpariaeth. Cafodd awgrymiadau ar gyfer cyllideb a phosibiliadau cydweithio ag eraill eu cynnig hefyd.

Crynodeb o'r ymatebion mewn perthynas ag **Amcan Pump**: *'Beth yw'ch barn am gynnwys sefydliadau cymunedol a gwirfoddol lleol wrth ddatblygu, hyrwyddo a defnyddio cyfleoedd mynediad? Yn yr ymgynghoriadau cynharach, dywedodd rhai pobl eu bod am gael eu cynnwys mwy yn eu manau gwyrdd lleol, wrth ddatblygu syniadau yn eu cymunedau lleol. Fyddech chi'n dymuno cymryd rhan mewn rhywbeth fel hyn?'*

Roedd y cwestiwn yma wedi ysgogi ymateb cymysg mewn perthynas ag ymwneud personol. Mae cyfanswm o 81 gwirfoddolwr (gyda manylion cyswllt) wedi cael eu nodi. Dyma adnodd sylweddol ar gyfer y dyfodol. Cafodd gwybodaeth ei darparu ynglŷn â chyfleoedd gwirfoddol cyfredol, yn ogystal â phwysigrwydd amgylchiadau teuluol, cyfrifoldebau gwaith, lleoliad, oedran, iechyd ac ati. Lle'r oedd pobl wedi cynnig gwybodaeth ychwanegol, roedd yna lawer o gefnogaeth ar gyfer cynnwys unigolion a grwpiau a llwyth o syniadau er mwyn datblygu'r syniadau yma. Roedd cynnwys pobl leol mewn manau lleol yn thema gyffredin, gan gefnogi balchder yn y gymuned, defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol. Mynegwyd pryderon mewn perthynas â sut mae'r Cyngor yn trosglwyddo'i gyfrifoldebau, a'r angen am sicrhau bod gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd yn derbyn yr adnoddau a'r gefnogaeth priodol.

Crynodeb o'r ymatebion mewn perthynas ag **Amcan Chwech**: *'Mae gennyn ni ddyletswyddau cyfreithiol i reoli gwaith Hawliau Tramwy ac rydyn ni'n bwriadu datblygu cyfres o bolisiau a chanllawiau sy'n nodi sut y byddwn ni'n gwneud y gwaith hwnnw. A fyddai hyn yn rhywbeth y byddai gennych ddiddordeb ynddo? Neu oes gennych chi unrhyw awgrymiadau?'*

Roedd nifer o bobl wedi awgrymu byddai diddordeb gyda nhw mewn bod yn rhan o waith datblygu polisi. Byddwn ni'n cysylltu â'r bobl yma, os oes gyda ni manylion

cyswllt ar eu cyfer nhw. Roedd eraill wedi awgrymu dylai bod yna ymgynghoriad ehangach mewn perthynas â pholisïau a chanllawiau drafft neu gynnig syniadau eraill er mwyn cynnwys grwpiau. Doedd pob person a oedd wedi ymateb i'r arolwg ddim yn cefnogi gwaith datblygu polisi. Cafodd pryderon ymarferol mewn perthynas â chyflymder paratoi, amser swyddogion, dargyfeirio adnoddau sydd ar gael o Cafwyd rhai awgrymiadau ymarferol er mwyn cynorthwyo â'r broses ac awgrymiadau er mwyn gwella'r broses rhoi gwybod am faterion sy'n codi ac argaeledd gwybodaeth.

Crynodeb o'r ymatebion mewn perthynas â **Chwestiwn 14**: *'Yn eich barn chi, oes unrhyw beth arall dylen ni ei gynnwys yn ein Cynllun Gwella Hawliau Tramwy?'*

Roedd yna amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn yma, roedd y mwyafrif yn adlewyrchu sylwadau cynharach. Gan ddweud hynny, roedd rhai awgrymiadau ychwanegol ar gyfer y rhestr syniadau a rhai newidiadau bach i'r testun wedi newid o ganlyniad i hynny.

Yn gyffredinol, mae tua 38 newid wedi cael ei wneud i'r Cynllun o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Mae'r newidiadau yma'n amrywio o newidiadau bach i'r geiriad i ychwanegu themâu blaenoriaethol yn rhan o rai Amcanion. Mae disgrifiad byr o'r ymatebion mewn perthynas â phob un o'r Amcanion sydd wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun terfynol.